# Pecyn Derbyniadau
# YGG Bryniago

## Llyfryn Gwybodaeth am Dderbyniadau

Yn y llyfryn hwn, byddwch yn dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol am ymuno â'n hysgol gynradd


| Tudalen | Cynnwys |
|---|---|
| 3 | Croeso/Manylion y Ffurflen Gais Derbyniadau |
| 4 | System Talu a Chyfathrebu iPay |
| 5-6 | Polisi Defnydd Derbyniol o TGCh |
| 7-8 | Defnyddio Lluniau Digidol |
| 8-9 | Lluniau neu Fideos gan Rieni |
| 10 | Ymweliadau Lleol/Casglu o'r Ysgol/Nofio |


**Cadwch y llyfryn hwn ar gyfer eich cofnodion**
**YGG Bryniago**
**Stryd Iago Isaf, Pontarddulais, Abertawe SA4 8JA**

**Telephone:** (01792) 882012
**Email:** ygg.bryniago@swansea-edunet.gov.uk
**Website:** https://yggbryniago.co.uk
**@YsgolBryniago**

**#Croeso,**

Rydym yn falch y bydd eich plentyn yn dod i'n hysgol ni. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi er mwyn sicrhau bod eich plentyn yn mwynhau ei amser yn Ysgol Gymraeg Bryniago.

Gellir dod o hyd i'r holl wybodaeth a nodir yn y llyfryn hwn ar wefan yr ysgol o dan Derbyniadau : www.yggbryniago.co.uk

Gellir hefyd ddod o hyd i wybodaeth am yr ysgol ar ein gwefan www.yggbryniago.co.uk ac yn y Prosbectws a Llyfryn y Blynyddoedd Cynnar y byddwch yn eu derbyn gyda'r pecyn hwn.

**Awdurdod Addysg Lleol (AALl) :**

Gallwch ddod o hyd i ddolen ar gyfer ffurflen gais derbyniadau'r AALl neu gofrestru am le ar-lein yn www.abertawe.gov.uk/derbyniadau

Bydd yr AALl yn anfon llythyr/e-bost i gadarnhau eich lle ac yn anfon copi atom.

**Cwblhau ein Pecyn Derbyniadau Ysgol**

Cwblhewch a dychwelwch hwn cyn gynted â phosib cyn i'ch plentyn ddechrau'r ysgol. Bydd hyn yn ein galluogi i roi gwybodaeth eich plentyn yn ein cronfa ddata. Os yw'ch plentyn wedi mynychu ysgol arall, gallwn gysylltu â'r ysgol honno er mwyn cael unrhyw ganlyniadau perthnasol a gwybodaeth olrhain, a fydd yn ein helpu i asesu cynnydd eich plentyn hyd yn hyn.

Mae'n bwysig eich bod yn sicrhau eich bod yn nodi unrhyw wybodaeth feddygol yn fanwl yn y Pecyn Derbyniadau, yn enwedig os oes gan eich plentyn unrhyw feddyginiaeth reolaidd, e.e. mewnanadlwr, gwrth-histaminau. Rhowch wybod i ni fel ein bod yn gallu rhoi'r ffurflenni perthnasol i chi eu cwblhau. Byddwn yn ddiolchgar petaech yn rhoi gwybod i ni os oes gan eich plentyn unrhyw alergeddau bwyd, nid yn unig oherwydd cinio ysgol ond ar gyfer gwersi coginio fel rhan o'r cwricwlwm hefyd.

Sicrhewch eich bod yn cwblhau pob adran o'r Pecyn Derbyniadau. Pan fyddwch yn dychwelyd y pecyn i'r ysgol, gofynnwn i chi ddangos tystysgrif geni'ch plentyn. Byddwn yn gwneud copi ohoni er mwyn ei chadw yn yr ysgol.

**Diogelu Data a Rhannu Gwybodaeth**

Bydd angen i Ysgol Gymraeg Bryniago.gadw gwybodaeth benodol am ddisgyblion. Cedwir yr wybodaeth yn unol â **Deddf Diogelu Data 1998, y GDPR (mis Mai 2018)** a Pholisi Diogelu Data a Mynediad at Gofnodion yr Ysgol. Defnyddir a rhennir data personol at amrywiaeth o ddibenion y mae'r ysgol yn ystyried eu bod o fudd i'r disgyblion, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) monitro perfformiad academaidd, adroddiadau ystadegol, dyfarnu cymwysterau a darparu gwasanaethau. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r 'Côd Ymarfer Rhannu Data' isod: - https://ico.org.uk/media/fororganisations/documents/1068/data_sharing_code_of_practice.pdf

Gweler gwefan yr ysgol, hysbysiadau preifatrwydd y eich pecyn derbyniadau ac/neu www.ico.gov.uk am fwy o wybodaeth

**Dim ond ein gorau glas sy'n ddigon da.**

## iPay

Mae'r ysgol yn defnyddio system dalu ar-lein. Mae hyn yn caniatau rhieni i dalu am eitemau dyddiol o fewn yr ysgol.

Mae iPayimpact yn cynnig ffordd syml a diogel i rieni a gwarcheidwaid dalu am drawsdoriad o bethau, gan gynnwys cinio ysgol, tripiau, digwyddiadau, tocynnau, a phethau eraill.

Darperir byr-bryd dyddiol I blant y Cyfnod Sylfaen am £3.00 yr wythnos. Darperir ffrwythau I flwyddyn 3-6 yn Siop byr-bryd iachus yr ysgol bob dydd Pris y byr-bryd yw 60c yr eitem.

Mae dŵr yfed ar gael i'r holl blant yn yr ysgol trwy gydol y dydd.

Gofynwn yn garedig i'r rhieni sy'n ddanfon cinio o adref (bocsys bwyd) i ddilyn canllaw yr ysgol a sicrhau fod y bwyd sydd yn y bocs yn fwyd iach – sy'n ran o ddeiet cytbwys y plentyn.

**Step 1.**

Within your web browser, navigate to www.ipayimpact.co.uk . It will take you to main iPay webpage as per the image below.




**Step 2.**

Click on the *"Register"* option.




**Step 3.**

Make sure you have your onboarding letter to hand. You will need the "Account Ref" code provided by your child's school for the next step.

**DINAS A SIR ABERTAWE**

Dim ond ein gorau glas sy'n ddigon da.

CITY AND COUNTY OF SWANSEA

## Ysgol Gymraeg Bryniago.- Polisi Defnydd Derbyniol o TGCh

### Polisi'r Ysgol

Mae'r rhyngrwyd a thechnoleg cyfathrebu yn chwarae rôl allweddol ym mywydau plant a phobl ifanc yn y gymdeithas erbyn hyn, yn yr ysgol ac yn eu bywydau y tu allan iddi. Mae technoleg yn offeryn pwerus, a gall roi cyfleoedd newydd i bawb ac ysgogi trafodaeth, hyrwyddo creadigrwydd a hybu ymwybyddiaeth o gyd-destun er mwyn hyrwyddo dysgu'n effeithiol. Dylai pobl ifanc gael yr hawl i fynediad diogel at y rhyngrwyd ar bob adeg.

**Dylai pobl ifanc gael yr hawl i fynediad diogel at y rhyngrwyd ar bob adeg.**

Bwriad y Polisi Defnydd Derbyniol hwn yw sicrhau bod:

- staff a gwirfoddolwyr yn ddefnyddwyr cyfrifol, a'u bod yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau cyfathrebu eraill at ddefnydd addysgol, personol a hamdden.
- systemau TGCh yr ysgol a defnyddwyr yn ddiogel rhag cam-ddefnydd ar ddamwain neu'n fwriadol a all beryglu diogelwch y systemau a'r defnyddwyr.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad da at TGCh er mwyn ehangu eu dysgu a bydd yn disgwyl i ddisgyblion gytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol.

### Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol i bob disgybl

Deallaf fod angen i mi ddefnyddio systemau TGCh yr ysgol mewn ffordd gyfrifol er mwyn sicrhau nad wyf yn peryglu fy niogelwch i neu ddiogelwch y systemau TGCh a defnyddwyr eraill.

**Er mwyn fy niogelwch personol:**

- Deallaf y bydd yr ysgol yn monitro fy nefnydd o'r systemau TGCh, e-bost a dulliau cyfathrebu digidol eraill.
- Byddaf yn trin fy enw defnyddiwr a'm cyfrinair fel 'brws dannedd' - ni fyddaf yn eu rhannu, ac ni fyddaf yn ceisio defnyddio enw defnyddiwr na chyfrinair unrhyw berson arall.
- Byddaf yn ymwybodol o 'berygl dieithriaid', (h.y. siarad â pherson anhysbys a all ddweud celwydd am ei hun er mwyn i chi ymddiried ynddo), pan fyddaf yn cyfathrebu ar-lein.
- Ni fyddaf yn datgelu neu'n rhannu unrhyw wybodaeth bersonol amdanaf i neu am bobl eraill pan fyddaf ar-lein.
- Os byddaf yn trefnu i gyfarfod â phobl rwyf wedi siarad â nhw ar-lein mewn bywyd go iawn, byddaf yn gwneud hyn mewn man cyhoeddus a bydd oedolyn yn dod gyda fi.
- Byddaf yn adrodd yn syth am unrhyw ddeunydd neu negeseuon amhleserus neu anweddus neu unrhyw beth sy'n peri i mi deimlo'n anghyfforddus pan fyddaf yn ei weld ar-lein.

**Deallaf fod gan bawb gyfle cyfartal i ddefnyddio technoleg fel adnodd, ynghyd â'r canlynol:**

- Deallaf y defnyddir systemau TGCh yr ysgol at ddiben addysgol yn bennaf ac **ni fyddaf yn defnyddio'r systemau ar gyfer defnydd personol neu hamdden oni bai fod gen i ganiatâd i wneud hynny.**
- Ni fyddaf yn ceisio lawrlwytho neu lanlwytho pethau mawr a all gymryd capasiti'r rhyngrwyd ac atal defnyddwyr eraill rhag cwblhau eu gwaith (oni bai fod gen i ganiatâd i wneud hynny).
- **Ni fyddaf yn defnyddio systemau TGCh yr ysgol ar gyfer chwarae gemau ar-lein, gamblo ar-lein, siopa ar-lein, rhannu ffeiliau neu ddarlledu fideos (e.e. YouTube) oni bai fod gen i ganiatâd gan aelod o staff i wneud hynny.**

5

**Byddaf yn ymddwyn fel y byddwn yn disgwyl i bobl ymddwyn tuag ataf i:**

- Byddaf yn parchu gwaith ac eiddo pobl eraill ac ni fyddaf yn defnyddio, copïo, neu'n newid ffeiliau unrhyw ddefnyddiwr arall, heb gael caniatâd y defnyddiwr.
- Ni fyddaf yn tynnu lluniau o unrhyw un heb ei ganiatâd, na'u rhannu.

**Rwy'n cydnabod bod gan yr ysgol ddyletswydd i gynnal diogelwch ac uniondeb y dechnoleg y mae'n ei chynnig i mi ac i sicrhau y cynhelir yr ysgol yn hwylus:**

- Byddaf yn defnyddio fy nyfeisiau llaw personol/dyfeisiau allanol (ffonau symudol/dyfeisiau USB/iPod etc.) yn yr ysgol **os bydd gen i ganiatâd** yn unig. Deallaf y bydd angen i mi ddilyn y rheolau a nodir yn y cytundeb hwn os byddaf yn defnyddio fy nyfeisiau fy hun yn yr ysgol, yn yr un modd ag y byddwn yn defnyddio offer yr ysgol.
- Deallaf y peryglon ac ni fyddaf yn ceisio lanlwytho, lawrlwytho neu gyrchu deunydd anghyfreithlon neu anaddas a all niweidio neu beri gofid i eraill, ac ni fyddaf yn ceisio defnyddio unrhyw raglenni neu feddalwedd a all fy ngalluogi i fynd heibio i'r systemau hidlo/diogelwch a weithredir er mwyn atal mynediad at ddeunydd o'r fath.
- Byddaf yn adrodd yn syth am unrhyw ddifrod neu ddiffygion mewn perthynas ag offer neu feddalwedd, ni waeth sut y digwyddodd.
- Ni fyddaf yn agor atodiadau mewn unrhyw e-bost, oni bai fy mod yn adnabod y person/sefydliad a anfonodd yr e-bost ac yn ymddiried ynddo, oherwydd y perygl y gallai'r atodiadau gynnwys firysau neu raglenni niweidiol.
- **Ni fyddaf yn gosod rhaglenni, neu yn ceisio eu gosod, ar unrhyw fath o beiriant, nac yn storio rhaglenni ar gyfrifiadur, neu'n ceisio newid gosodiadau cyfrifiadur.**
- **Ni fyddaf** yn defnyddio gwefannau sgwrsio na gwefannau cyfryngau cymdeithasol ar unrhyw adeg ar safle'r ysgol.

**Pan fyddaf yn defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer gwaith ymchwil neu hamdden, nodaf y canlynol:**

- Dylwn sicrhau bod gen i ganiatâd i ddefnyddio gwaith gwreiddiol gan bobl eraill yn fy ngwaith.
- Pan fydd gwaith wedi'i ddiogelu gan hawlfraint, ni fyddaf yn ceisio lawrlwytho copi ohono (gan gynnwys cerddoriaeth a fideos).
- Pan fyddaf yn defnyddio'r rhyngrwyd i ddod o hyd i wybodaeth, dylwn wirio bod yr wybodaeth a roddir yn gywir, gan fy mod yn deall a yw gwaith pobl eraill bob tro'n ffeithiol gywir a gall fod yn fwriadol gamarweiniol.

**Deallaf fy mod yn gyfrifol am fy ngweithredoedd, yn yr ysgol a'r tu allan iddi:**

- Deallaf hefyd fod gan yr ysgol yr hawl i weithredu yn fy erbyn os byddaf yn gysylltiedig â digwyddiadau anaddas a nodir yn y cytundeb hwn pan fyddaf y tu allan i'r ysgol ac sy'n gysylltiedig â fy statws fel aelod o gymuned yr ysgol hon (byddai enghreifftiau'n cynnwys seibrfwlio, defnyddio lluniau neu wybodaeth bersonol).
- Deallaf os byddaf yn methu cydymffurfio â'r Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol hwn y byddaf yn destun camau disgyblu. Gall hyn gynnwys **colli mynediad at rwydwaith/ryngrwyd yr ysgol**, aros ar ôl ysgol, gwaharddiadau dros dro, cysylltu â rhieni, ac, yn achos gweithgaredd anghyfreithlon, gynnwys yr heddlu.

Defnyddir y geiriad isod gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen fel yr isod, ond bydd yr uchod hefyd yn berthnasol.

**Dyma sut rydym yn aros yn ddiogel pan fyddwn yn defnyddio cyfrifiaduron:**

- Byddaf yn gofyn i athro neu oedolyn arall yn yr ysgol os rwyf am ddefnyddio'r cyfrifiaduron
- Byddaf yn defnyddio'r gweithgareddau y mae athro neu oedolyn arall yn yr ysgol wedi gofyn i mi eu defnyddio, neu wedi gadael i mi eu defnyddio, yn unig
- Byddaf yn gofalu am y cyfrifiadur a'r offer arall
- Byddaf yn gofyn am gymorth gan athro neu oedolyn arall yn yr ysgol os nad wyf yn sicr beth i'w wneud neu os wyf yn credu fy mod wedi gwneud rhywbeth o'i le
- Byddaf yn dweud wrth athro neu oedolyn arall yn yr ysgol os byddaf yn gweld rhywbeth sy'n fy ngwneud yn drist ar y sgrîn
- Rwy'n gwybod na fyddaf yn gallu defnyddio cyfrifiadur neu dabled os rwyf yn torri'r rheolau.

Dim ond ein gorau glas sy'n ddigon da.

**Llofnodwch a rhowch ddyddiad ar y ddogfen cytundeb (yn y pecyn derbyniadau ar dudalennau 5 a 6) i ddangos eich bod wedi darllen a deall y rheolau yn y Cytundeb Defnydd Derbyniol a'ch bod yn cytuno â hwy. Os na fyddwch yn llofnodi ac yn dychwelyd y cytundeb, ni roddir mynediad at systemau TGCh yr ysgol.**

## Defnyddio lluniau digidol a fideos

Mae lluniau digidol a fideos yn chwarae rhan bwysig mewn gweithgareddau dysgu. Gall disgyblion a staff ddefnyddio camerâu digidol i recordio tystiolaeth o weithgareddau mewn gwersi a'r tu allan i'r ysgol. Gellir defnyddio'r lluniau hyn mewn cyflwyniadau mewn gwersi dilynol. Mae ein hysgol yn defnyddio lluniau a fideos mewn amrywiaeth eang o weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi tystiolaeth am waith dosbarth a chyrhaeddiad disgyblion yn ein deunydd hyrwyddol.

Gall rhai ffotograffau a fideos fod yn angenrheidiol i ni fel rhan o'n goblygiadau cyfreithiol, amodau contract, ac yn bwysig i ni er mwyn cyflawni tasgau cyhoeddus. Ni rennir y ffotograffau hyn yn gyhoeddus ac fe'u defnyddir at eu dibenion penodol yn unig.
Er enghraifft, cyflwyno gwaith i sefydliadau arholiadau.

Gellir defnyddio lluniau hefyd i ddathlu llwyddiant mewn cylchlythyron, ar wefan yr ysgol, ar gyfryngau cymdeithasol (e.e. Twitter) ac weithiau yn y cyfryngau cyhoeddus. Gellir defnyddio ffotograffau:

- **ar arddangosfeydd o amgylch yr ysgol**
- **ar wefan yr ysgol**
- **ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol yr ysgol (e.e. Twitter)**
- **ym mlogiau'r ysgol**
- **ym mhrosbectws yr ysgol (yn ddigidol ac wedi'i argraffu)**
- **ym mholisïau'r ysgol (yn ddigidol ac wedi'u hargraffu)**
- **yng nghylchlythyrau'r ysgol (yn ddigidol ac wedi'u hargraffu)**
- **ar sgrîn ffrwd newyddion a dathliadau'r cyntedd**
- **mewn deunydd marchnata, e.e. cyngherddau, digwyddiadau chwaraeon, ffair, etc.**
- **yn y wasg, e.e. Evening Post**

Yn ogystal, efallai y bydd ein hysgol yn gwahodd ffotograffydd allan i'r ysgol bob blwyddyn er mwyn tynnu lluniau ysgol swyddogol.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a bydd yn gofyn am ganiatâd rhieni/gofalwyr cyn tynnu lluniau o aelodau'r ysgol. Byddwn hefyd yn sicrhau na ellir adnabod y bobl ifanc drwy ddefnyddio eu henwau.

Gofynnir i rieni lofnodi'r ffurflen isod er mwyn **galluogi'r ysgol** i gymryd lluniau o'u plant a'u defnyddio.

## Amodau Defnydd

- Ni fyddwn yn ail-ddefnyddio unrhyw luniau neu ffilmiau ar ôl i'ch plentyn adael yr ysgol hon.
- Ni fyddwn yn defnyddio manylion personol nac enwau llawn (sef enw cyntaf a chyfenw) unrhyw blentyn mewn ffotograff neu fideo, ar ein gwefan, ym mhrosbectws yr ysgol neu mewn unrhyw un o'n cyhoeddiadau printiedig eraill.
- Ni fyddwn yn cynnwys cyfeiriad e-bost personol, cyfeiriad cartref neu rifau ffôn mewn fideo, ar ein gwefan, ym mhrosbectws yr ysgol neu mewn cyhoeddiadau printiedig eraill.

- Os byddwn yn defnyddio delweddau o ddisgybl unigol, ni fyddwn yn defnyddio enw'r plentyn hwnnw yn y testun nac ym mhennawd y llun.
- Os byddwn yn enwi disgybl yn y testun, ni fyddwn yn defnyddio ffotograff o'r plentyn hwnnw i gyd-fynd â'r erthygl.
- Efallai byddwn yn cynnwys lluniau o ddisgyblion ac athrawon sydd wedi'u tynnu gan y disgyblion.
- Gallwn ddefnyddio delweddau grŵp neu ddosbarth gyda labeli cyffredinol iawn megis 'gwers wyddoniaeth' neu 'creu addurniadau Nadolig'.
- Byddwn yn defnyddio delweddau o ddisgyblion sydd wedi'u gwisgo'n briodol yn unig i leihau'r perygl y bydd delweddau o'r fath yn cael eu defnyddio mewn modd amhriodol.

**Lluniau gan Rieni:**
Deallwn fod rhieni'n gefnogol iawn o'u plant. Dylid defnyddio lluniau a fideos gan rieni a pherthnasau plant ein hysgol at ddibenion **personol** yn unig; **ni chaniateir** i chi werthu ffotograffau **"defnydd personol"** neu eu rhannu ar-lein, nac yn gyhoeddus nac mewn unrhyw fformat arall.

Gall ein pennaeth ofyn i chi beidio â thynnu lluniau na recordio fideos ar adegau. Mae copi o'n Polisi Lluniau a Fideos ar gael ar gais. Os bydd gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â swyddfa'r ysgol.

**Ymweliadau Lleol**

Yn Ysgol Gymraeg Bryniago.rydym yn rhoi cyfleoedd i'ch plant dderbyn amrywiaeth o brofiadau dysgu yn y dosbarth a'r tu allan iddo. Mae ymweliadau dosbarth â lleoliadau yn yr ardal leol yn chwarae rhan sylweddol mewn dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Byddwch yn rhoi caniatâd i'ch plentyn fynd ar ymweliadau yn yr ardal leol yn y ffurflen hon. Bydd rhai o'r lleoliadau hyn yn cynnwys:

- Llyfrgell Pontarddulais
- Parc Coed Bach
- Tref Pontarddulais
- Adeiladau yn yr ardal leol e.e. capeli, eglwysi, siopau

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw deithiau ac ymweliadau a wneir yn yr ardal leol, ond ni fydd angen caniatâd ychwanegol gennych oni bai fod yr ymweliad yn cynnwys cludiant.

**Casglu o'r ysgol**
Mae'n bwysig bod yr ysgol yn gwybod pwy sydd â chaniatâd i ddod i gasglu'ch plentyn heblaw amdanoch chi fel rhieni/gwarcheidwaid.

Deallwn y gall nifer o bobl amrywiol gasglu eich plentyn yn ystod yr wythnos oherwydd bod angen gofal plant arnoch. Rhowch wybod i athro dosbarth eich plentyn am yr amserlen ar gyfer casglu'ch plentyn fel bod yr athro'n ymwybodol o unrhyw newid i'r trefniadau. Deallwn y gall cynlluniau newid

yn ystod y dydd hefyd, felly gofynnwn i chi roi gwybod i ni am unrhyw newid i drefniadau cyn gynted â phosib - mae'r swyddfa'n brysur iawn ar ddiwedd y dydd ac mae'n gallu bod yn anodd i ni drosglwyddo negeseuon i staff os cawn wybod yn hwyr yn y dydd.

Wrth i'ch plentyn symud ymlaen trwy'r ysgol, efallai y byddwch yn penderfynu y gall gerdded adref yn annibynnol, efallai ym mlwyddyn 5 neu 6. Os byddwch yn penderfynu bod eich plentyn yn barod i wneud hyn, siaradwch ag athro'r dosbarth er mwyn rhoi gwybod iddo am eich penderfyniad.

**Gallwch wneud cais am brydau ysgol am ddim ar-lein yn**
**www.abertawe.gov.uk/prydauysgolamddim**
**Cais am Brydau Ysgol Am Ddim**

| | |
|---|---|
| Eich enw llawn: | Mr / Mrs / Miss / Ms |
| Cyfeiriad: | |
| | |
| | Côd Post: |
| Eich dyddiad geni | |
| Eich rhif yswiriant gwladol neu'ch rhif Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches (NASS) | |
| Enw'ch partner | |
| Rhif Yswiriant Gwladol eich partner neu ei rif Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches (NASS) | |
| Dyddiad geni'ch partner | |
| Eich rhif ffôn yn ystod y dydd | |
| Cyfeiriad e-bost | |
| Beth yw'ch perthynas â'r disgybl(ion), e.e. rhiant, mam-gu neu dad-cu, gwarcheidwad, rhiant maeth etc. | |

**Ticiwch ger pob taliad rydych yn ei dderbyn.** ✓

| | | **Chi** | **Eich partner** |
|---|---|---|---|
| 1 | Cymhorthdal Incwm | | |
| 2 | Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm | | |
| 3 | Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm | | |
| 4 | Cymhorthdal o dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 (Bydd angen eich rhif NASS arnom) | | |
| 5 | Elfen Warantedig Credyd Pensiwn y Wladwriaeth | | |
| 6 | Credyd Cynhwysol | | |
| 7 | Credyd Treth Plant gydag incwm blynyddol, fel y'i hasesir gan Gyllid y Wlad, nad yw'n fwy na £16,190.00 ac NID ydych yn derbyn Credyd Treth Gwaith | | |

**Dim ond ein gorau glas sy'n ddigon da.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | Credyd Treth Gwaith ychwanegol - gellir derbyn y taliad hwn am bedair wythnos ychwanegol ar ôl i'r Credyd Treth Gwaith ddod i ben (ni fydd hawl gennych i brydau ysgol am ddim os ydych yn derbyn Credyd Treth Gwaith mewn amgylchiadau eraill). | | |
| 9 | Rwy'n ddisgybl sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm trwy fy rhinwedd fy hun | | |

Tudalen 1 o 2

**Rhestrwch BOB plentyn oed ysgol (parhewch ar gefn y ffurflen hon os oes angen):**

| Cyfenw'r plentyn | Enw cyntaf y plentyn | Gwryw/Benyw (G/B) | Dyddiad geni'r plentyn | Ysgol a fynychir (os bydd plentyn yn dechrau mewn ysgol newydd yn fuan, nodwch hyn) | Cais am grant gwisg ysgol ✓ (disgyblion Blwyddyn 7) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

**Taleb Grant Gwisg Ysgol**

Mae grant unigol o £105 i'w wario ar wisg ysgol ar gael hefyd i ddisgyblion sy'n ymuno â Blwyddyn 7 yr ysgol uwchradd lle mae eu rhieni'n derbyn un o'r budd-daliadau a restrir. Os yw'ch plentyn yn ymuno â blwyddyn 7, a hoffech wneud cais am y grant hwn, ticiwch y blwch 'cais am grant gwisg ysgol' uchod pan fyddwch yn rhoi manylion eich plentyn.

Ymdrinnir â'r ffurflen hon fel cais am y grant.

**Eich datganiad** - Darllenwch y datganiad hwn yn ofalus cyn i chi ei lofnodi a'i ddyddio.

Rwy'n datgan bod yr wybodaeth rwyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn, a byddaf yn hysbysu Is-adran Budd-daliadau'r cyngor ar unwaith am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a allai effeithio ar fy hawl i gael prydau ysgol am ddim, gan gynnwys newidiadau i'm cyfeiriad neu fanylion fy mudd-daliadau.

Rwy'n cytuno y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth rwyf wedi'i rhoi i brosesu fy nghais am brydau ysgol am ddim a, lle nodir, am grant gwisg ysgol. Rwy'n deall y bydd y cyngor yn cysylltu â chyrff canolog a/neu lywodraeth leol eraill i ddilysu fy hawliad cychwynnol a pharhaus.

Rwy'n cytuno y cewch roi gwybod i'r ysgol(ion) y mae fy mhlentyn/mhlant yn mynd iddi/iddynt am ei/eu hawliad cychwynnol a pharhaus i brydau ysgol am ddim.

Rwy'n deall y caiff yr awdurdod ddefnyddio'r wybodaeth a roddir gennyf i atal a chanfod twyll. Caiff hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gweinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.

Llofnod yr Ymgeisydd …………………………………………………..……..…. Dyddiad:…………..………..

Ewc

Is-ad

Tîm

Dina

Heol

Aber

Os oes gennych gwestiynau am Brydau Ysgol am

Ddim, mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan

-www.abertawe.gov.uk/prydauysgolamddim NEU

e-bostiwch: prydauysgolamddim@abertawe.gov.uk



Tudalen 2 o

Dim ond ein gorau glas sy'n ddigon da.